YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

MEHEFIN, 1869.

CYNNYDD PABYDDIAETH.

NID ychydig yn awr yn ein gwlad sydd yn ofni y cynnydda Pabyddiaeth cyn bo hir i'r fath raddau fel ag i beryglu rhyddid crefyddol, oblegid dengys hanesiaeth eglwysig nad oes y fath ryddid i'w gael lle bynag y byddo Pabyddiaeth yn ben. Hereticiaid damniol yn ei golwg yw y Protestaniaid, a chreda mai gwneyd gwasanaeth i Dduw yw eu rhwystro i addoli, a'u hymlid o bob gwlad. Yn ei barn hi y Pab yw pen yr eglwys, ac nid oes a fynno neb arall a dysgu crefydd i ddynion ond efe yn unig, a'r sawl dderbyniant awdurdod oddiwrtho. Nid rhyfedd, gan hyny, fod ofn ar lawer weled Pabyddiaeth yn lledu ei gwersyll.

Nid oes ammheuaeth nad yw y grefydd hon yn cynnyddu yn ein gwlad ys blynyddau. Am un capel Pabyddol ddeng mlynedd ar hugain yn ol, yn sicr mae yn awr bedwar. Nid oes nemawr o dref o ddim maint heb ynddi Roman Catholic Chapel. Sefydla dai crefyddol yn mhob man a all, mae ei hesgobion yn lled aml, ac o leiaf mae ganddi un archesgob yma. Wrth gwrs, gosod ar droed bob moddion a feddylia am danynt i broselytio y trigolion. Defodau allanol, geiriau dengar, cyfrwystra Jesuitaidd—moddion anhawdd i ddynion cyffredin i wrthsefyll eu dylanwad. Mae yn un cysur, er hyny, i feddwl mai Gwyddelod yw y nifer amlaf yn ei chynnulleidfaoedd, y rhan fwyaf o honynt, ond y mae hefyd yn eu plith lawer o Gymry a Saèson.

Beth yw'r achos fod Pabyddiaeth yn gwneyd mwy o gynnydd yn y wlad hon yn awr na chynt? Un achos yn ddiau yw y "Roman Catholic Relief Bill." Pasiwyd y Bill hwnw yn 1829, ychydig wythnosau ar ol diddymiad y "Test a'r Corporation Act." Mae'r "Catholic Relief Bill" yn caniatau yr un rhyddid crefyddol i'r Catholiciaid ag a fwynha pob enwad arall o Grist'nogion. Cafodd yr Act lawer o wrthwynebiad cyn pasio, a mawr oedd y canlyniadau peryglus a achosai, yn ol barn ei gwrthwynebwyr, ond cariwyd hi trwy y ddau Dŷ â mwyrif lluosog. Nis gallwn ni weled un rheswm paham na ddylai y Catholiciaid gael yr un rhyddid i addoli a rhyw enwad arall. Yn awr maent yn mwynhau y rhyddid hwn, ac yn gwneuthur cymmaint o ddefnydd o hono ag a allant i ledu ei syniadau, ac nid oes dim dim dadl nad ydynt yn llwyddo.

Dichon hefyd fod cynnydd Ritualiaeth yn yr Eglwys Sefydledledig yn ffafriol i Babyddiaeth. Fel y Catholiciaid, mae y blaid hon, yn gosod mawr bwys ar ddefodau a gwisgoedd offeiriadol. Cyneuant ganwyllau ar yr allor, ymgrymant o flaen llun y groes, yn nghyd â gwneuthur llawer o fummiau yn ngweinyddiad y Sacrament. Cyhuddir hwynt hefyd o roddi annogaeth i'r ddefod Babaidd a elwir *Auricular Confession*, neu gyfaddefiad pechod yn ddirgel yn nghlust yr offeiriad; ond y maent hwy eu hunain yn gwadu y cyhuddiad. Peth naturiol yw i ddynion na wyddant fawr am egwyddorion Crist'nogaeth feddwl, os yw defodau a seremoniau o'r fath hyn yn rhan o honi, mai gwell yw myned ar unwaith drosodd at y Catholiciaid. Yn wir, nid oes dim dadl, yn ein meddwl ni, nad yw ystranciau y Ritualiaid yn yr Eglwys Sefydledig yn help mawr i gynnydd Pabyddiaeth.

Ac onid oes rhyw beth neillduol yn yr oes hon ag sy yn ffafriol i Babyddiaeth? Mae rhyw awydd ryfedd ar ddynion am gyffröad *(excitement)*. Rhy ddof i lawer yn awr yw yr hen ddull prysur a thawel o addoli. Mae yn rhaid i ddynion gael clywed a gweled rhyw bethau fyddo yn gyffrous yn y tŷ addoliad, fel yn y *theatre*, onite ni fyddant wrth eu bodd. Y pregethwr a ddywed bethau tarawriadol a synwyrlym *(witty)* yw yr un mwyaf poblogaidd. Nid yw y canu hefyd yn eu boddio; rhaid cael *chants;* na'r capel yn ddigon hardd heb ffenestri amryliw, a llawer o bethau eraill i foddio y llygad a'r glust. Ni wna addoliad mewn ysbryd a gwirionedd ddim o'r tro yn gyffredin. Pwy ryfedd gan hyny fod defodau y Catholiciaid yn cael cymeradwyaeth? Nid oes dim llawer am y clywsom hyd yn nod Undodwr yn dyweyd iddo gael boddlonrwydd mawr yn eu haddoliad! ac yr ai efe yno etto pan y celai gyfleistra. Dyma ysbryd crefyddol yr oes. Myned mae llawer yn y dyddiau hyn i gapel neu eglwys, nid i addoli, ond i ymofyn am ryw beth i'w cyffroi, ac i dori yr *ennui* y maent ynddo gartref. Mae yr ysbryd hwn yn un ffafriol iawn i Babyddiaeth, ac nid oes neb a wyr yn well pa fodd mae ei foddio na'r Catholiciaid.

I ba achosion bynag mae Pabyddiaeth yn ddyledus am ei chynnydd, mae yn ffaith ei bod yn cynyddu. Y cwestiwn yw, a ydyw ei chynydd yn debyg o beryglu rhyddid crefyddol yn y wlad hon? Dyma'r ofn sydd ar lawer. Ofnant y bydd yn rhaid ymladd brwydr Protestaniaeth a rhyddid crefyddol drosodd drachefn. Yr ydym ni o'r farn mai disail hollol yw y dyb hon. Meddwl ydym nas gall erledigaeth grefyddol byth gymeryd lle yn y wlad hon mwy. Pwy reswm sydd genym i dybied hyn?

Ymddengys i ni fod hanesiaeth eglwysig yn dangos yn eglur mai prif ddyben yr erledigaethau a gymerasant le yma o amser Harri VIII. hyd y flwyddyn 1689, pan y pasiwyd y *Toleration Act*, oedd i sefydlu unffurfiaeth addoliad, trwy orfod i bawb addoli yn yr Eglwys Sefydledig. Yn awr mae y wlad hon wedi gweled, ys blynyddau maith, fod unffurfiaeth addoliad yn beth ammhosibl Mae y genedl wedi dysgu y wers hon yn drwyadl, ac ni anghofir mo honi yn fuan. Hefyd cyn y gall Pabyddiaeth beryglu rhyddid crefyddol, bydd yn rhaid iddi gael ei mabwysiadu gan y Stâd, a'i gwneyd yn eglwys Sefydledig. Yn awr, dyma wers arall mae ein gwlad wedi ddysgu, sef y gall cenedl fod mor grefyddol heb Eglwys Sefydledig yn gystal, beth bynag, ag â hi, ac mai

gwell mewn ystyr grefyddol a chymdeithasol yw gadael i bob enwad i gynal ac i drefnu ei achosion crefyddol ei hun, a hyny yn annibynol ar y Stâd. Tan ddylanwad yr argyhoeddiad hwn mae ein trefedigaethau *(colonies)* yn taflu ymaith eu heglwysi sefydledig, a gŵyr pawb am yr ysgrif nodedig sydd wedi newydd basio trwy bwyllgor ein Senedd—nid llai nag ysgrif i ddadgyssylltu a diwaddoli Eglwys Sefydledig yr Iwerddon. Mae ysbryd yr oes yn erbyn cyssylltu crefydd â'r Stâd. Cael ei dioddef yn awr mae Eglwys Sefydledig y wlad hon. Cyn gynted ag y ffafria amgylchiadau, ysgwyd y wlad hi oddiar ei hysgwyddau, pan aeddfeda'r amser, ac os na fydd Mr. Gladstone yn fyw i wneuthur yr un gymwynas a'r chwaer-eglwys yn Brydain, bydd amgylchiadau yn sicr o gyfodi rhyw Gladstone cymhwys at y gorchwyl. Unwaith y caiff y wlad wared o'r eglwys bresennol, nid oes achos ofni y sefydla eglwys arall. Un o nodweddiadau neillduol trigolion y wlad hon yw eu bod yn ddeyr yn effeithio gwelliantau gwladol, ond unwaith y byddo wedi gwneyd cam yn mlaen, nid yw byth yn cychwyn yn ei hol. Am hyny cynnydded Pabyddiaeth faint y fynno, bydd mor ddiniwed ag unrhyw blaid arall. Cyssylltiad â'r Stâd sydd yn rhoddi cyrnau, a chrafangau, a dannedd i sect. O ganlyniad, nid yw cynydd Pabyddiaeth yn peru dim ofn i ni.

Yn olaf, peth call fyddai i'r sawl sydd arnynt gymaint o ofn Pabyddiaeth ddefnyddio moddion effeithiol i attal ei lledaeniad. Dyma ein cyngor ni. Mynent weled fod plentyn trwy'r wlad yn cael addysg ysgol wythnosol, nes y byddo yn abl, pan y tyfo i fyno, i adnabod y gwahaniaeth sy rhwng y gwirionedd a choelgrefydd. Mewn tir digwrtaith y tyfa chwyn.

Ac onid oes hefyd eisiau diwygio Protestaniaeth ei hun? Pe buasai hi wedi delio yn onest at ei hegwyddorion, ni fuasai dim achos yn awr i neb ofni Pabyddiaeth oherwydd ei chynydd. Y Beibl, meddai Protestaniaeth, ac nid y Pab, yw'r unig awdurdod mewn pethau crefyddol, a dal fod gan bob dyn hawl i farnu drosto ei hun o berthynas i ystyr y Beibl. Egwyddorion da yw y rhai hyn, ond a ydynt erioed wedi cael eu cario allan i'r eithafion y dylent? Nac ydynt ddim. Mae yn wir fod groesaw i bawb ddarllen eu Beibl, ac i farnu yn ol fel y byddont yn gweled yn fwyaf iawn y'nghylch meddwl y Beibl, ond cynyged neb wneyd ei feddwl yn gyhoeddus i'r eglwys y perthyna iddi; gwae fydd iddo os na chydwela â'i safon duwinyddol hi! Caiff deimlo yn lled fuan fod ei phenaethiaid yn y "seat fawr" yn babau mor anffaeledig â'i sancteiddrwydd ar y saith bryn. Mae gan bob plaid ei phynciau—ei shiboleth. Pwy bynag ni chreda, diau y cyfrgollir ef yn dragywydd. Dyna'r ysbryd sydd yn ein plith. Mewn gair, mae Protestaniaeth yn anonest â'i hegwyddorion ac o ganlyniad yn wan—rhy wan i wrthsefyll Pabyddiaeth. Gwendid yn mhob peth yw anghyssondeb. Ymddyged Protestaniaeth yn gysson â'i hegwyddorion, yna hi saif ei thir; ond nid cyn hyny.

NID PETH DRWG YNDDI EI HUN YW HERESI.

Yr oedd Paul yn heretic. Mae yn addef mai heresi oedd ei grefydd. "Ond hyn yr wyf yn ei gyffesu iti, mai yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn heresi, felly yr wyf fi yn addoli Duw fy nhadau; gan credu

yr holl bethau sydd ysgrifenedig yn y ddeddf a'r prophwydi." Act. xxiv. 14.

Oddiwrth hyn ymddengys nad oes dim drwg mewn heresi, os bydd dyn yn onest. O ran ei grefydd yr oedd Paul yr un peth a'r Iesu, ac eraill o'i Apostolion. Os heretic oedd Paul, heretic oedd yr Iesu, ac hereticiaid oedd yr Apostolion oll; ac os hereticiaid oeddynt hwy, nid yw yn bechod i fod yn heretic.

Ni dderbyniodd Paul ei grefydd gan ddyn. "Eithr yr wyf yn hysbysu i chwi, frodyr," medd efe, "am yr efengyl a bregethwyd genyf fi, nad yw hi ddynol, canys nid gan ddyn y derbyniais hi, nac y'm dysgwyd; eithr trwy ddatguddiad Iesu Grist." Gal. i. 11, 12. Am hyny gall hyd yn nod crefydd a ddaeth i waered o'r nef fod, mewn rhai amgylchiadau, yn heresi. Os yw'r byd mewn tywyllwch, heresi yw'r gwirionedd. Dyma fel ydoedd yn nyddiau'r Apostolion. Hereticiaid oedd y Crist'nogion, a heresi oedd Crist'nogaeth.

Peidiwch ofni cael eich galw yn heretic; byddwch onest ac addefwch eich cred. Addefai Paul ei gred yn ddiofn. Gwyddai mai heresi ydoedd, ac nad oedd mewn ffafr gan y byd, er hyny addefai hi. "Ond yr wyf yn ei gyffesu i ti mai yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn heresi, felly yr wyf fi yn addoli Duw fy nhadau." Pan y cyhuddent Paul o fod yn hla, ac yn un ag oedd yn codi terfysg, nis addefai wirionedd y cyhuddiad, oblegid gwyddai nad oedd wir. Traetha na chawsant hwy ef yn y deml yn gwneuthur terfysg i'r bobl, nac yn y synagogau, nac yn y ddinas, ac ni allent brofi, meddai, y pethau oeddynt yn achwyn arno o'u plegid; ond addefai yn hyf wrth Felix mai yn y ffordd oeddynt hwy yn alw yn heresi, felly yr addolai Dduw ei Dadau.

Yr unig beth sydd yn gwneuthur athrawiaeth yn heresi yw y ffaith ei bod yn groes i gredo y cyffredin. Mae yn heresi am fod dynion yn ei galw felly. Pe byddai i'r athrawiaeth a elwid yn heresi ddigwydd dyfod yn boblogaidd, yna yr athrawiaeth sydd yn awr yn boblogaidd fyddai wedi'n yn heresi. Am hyny, dywed Paul, "yn ol y ffordd y maent hwy yn ei galw yn heresi, felly yr wyf fi yn addoli Duw fy nhadau." Na fydded ar neb gywilydd i gael eu galw yn hereticiaid!

RHYDDID UFUDD-DOD.

UFUDD-DOD trwyadl i gyfreithiau yw unig sylfaen gwir ryddid. Mae hyn yn wir mewn ystyr foesol ac ysbrydol yn gystal a naturiol. Y mae cyfreithiau naturiol; y mae hefyd gyfreithiau moesol ac ysbrydol. Yr ydym yn rhydd mewn ystyr naturiol pan fyddom yn talu perffaith ufuddod i gyfreithiau natur, ac yn yr un modd yr ydym yn rhydd mewn ystyr foesol ac ysbrydol, pan fyddom yn ufuddhau i gyfreithiau y meddwl a'r ysbryd. Nid oes un ffordd iawn i gwrteithio y meddwl, ond trwy gydymffurfio â chyfreithiau'r meddwl. Pe cynygai dyn anllythrenog ymaflyd â phynciau dyfnion mewn unrhyw gangen o wybodaeth, methai wneyd dim am nad ydyw erioed wedi cydymffurfio â'r cyfreithiau hyny o eiddo y meddwl ag sydd yn gofyn ufudd-dod trwyadl yn ein gwaith yn

cwrteithio galluoedd y meddwl. Ond nid felly y llythrenog, yr athronydd. Dechreua efe gwrteithio y meddwl a chydymffurfio â'i gyfreithiau, hyd yn nod yn ei ienctyd. Dechreua â phethau bychain ac eglur, ac aiff yn mlaen o gam i gam yn unol â chyfreithiau y meddwl, nes o'r diwedd y byddo yn alluog i ymaflyd â phethau mawrion a dyfnion gwybodaeth. Teimla ei hun yn gryf—yn ddigon cryf—i anturio dros y cyffiniau hynny ag ydynt fel muriau ar ffordd y dyn anllythrenog. Mae ei ufudd-dod perffaith i gyfreithiau y meddwl yn rhoddi rhyddid iddo i drafaelu dros holl faesydd gwybodaeth, ac yn awr teimla fod y cyfreithiau mae wedi ufuddhau iddynt erioed yn sicrhau iddo gynnydd a dedwyddwch. Mae yn meddu ar berffaith ryddid oddiwrth gyfeiliornad, coel-grefydd, rhagfarn; mewn gair, oddiwrth bob math o gaethiwed meddwl.

Mae yr un sylw yn addas gyda golwg ar ein bywyd ysbrydol. Nid oes un dyn nad yw yn teimlo arno ddyledswydd i wneuthur yr hyn feddylia sydd iawn. Nis gall neb gael llwyr wared o'r teimlad hwn. Os anufuddha iddo y mae yn gaethwas i dristwch, annedwyddwch, dwysbigiad y gydwybod. O'r tu arall, os y llwyr ufuddhawn iddo, ni a fyddwn mewn meddiant ar wir ryddid—yn rhyddion yn wir. Teimla pob dyn ryw fath o awydd am feddu pethau sydd wir, a hardd, a daionus. Mae'r teimlad hwn yn reddfol mewn pob dyn i raddau mwy neu lai. Mae mor gryf a bywiog mewn rhai dynion fel y teimlant syched parhaus am fwy o gymundeb â chariad a sancteiddrwydd y Bod anfeidrol. Anhawdd iawn yw lladd y teimlad *dwyfol* hwn yn y fynwes. Os cwrteithir yr awydd hon â'r gwirionedd a'r harddwch sydd yn wastad yn ein hamgylchu yn y byd sylweddol ac ysbrydol; os torir y syched hwn trwy yfed o'r ffrydiau melus sydd yn gorlifo tros holl weithredoedd Duw; yna teimlwn yn ein heneidiau y fath heddwch nas gall un tafod byth ei draethu; ni a rodiwn yn rhyddid gogoniant plant Duw.

Y neb, chwi wyddoch, a chwenych gael corph cryf, iachus, ac aelodau cyflawn, a raid borthi ei gorph â bwydydd meithrinawl, a'i osod tan gwrteith diflin. Ni wna ymborth gwael y tro i handlo y fwyell, y morthwyl, neu'r ordd. Rhaid cael ymborth da—nid soegion neu flawd-llif. Felly hefyd y neb a chwenych gael meddwl cryf, cyflawn, ac enaid eang, a raid ymborthi â bwyd ysbrydol, a darostwng ei feddwl a'i enaid i gwrteith sydd yn ofynol i gynnydd a nerth ysbrydol. Nid ydyw bwyd ysbrydol yn gynnwysedig mewn rhyw athrawiaethau y'nghylch Duw fel bod digllon yn gyrru i'r poenau tragwyddol fodau a greodd o ran eu nhatur yn dueddol i bob drwg, ac yn groes i bob daioni; ond yn hytrach mewn golygiadau cywir am dano fel bod cyfiawn a chariadus, a sanctaidd; mewn ymdrech parhaus am y gwirionedd, ac am burdeb calon; ac mewn gosod cyflawn hyder yn ein natur ddynol yr hon a wnaeth ei Chrewr mawr yn ychydig is na'r angylion, ac a'i coronodd â gogoniant ac a harddwch. Yr unig ansawdd ysbrydol a'n harwain i wir gynnydd a rhyddid yw'r ymddiried parchus a dwfn hwnw yn y gwirionedd ag a bera i ni ei geisio, ac wedi ei gael, ei dderbyn, er y dichon fod yn groes i athrawiaethau fuont unwaith yn anwyl gennym, ac megys yn sanctaidd yn ein golwg. Pan yn ufuddhau yn y dull hwn i gyfraith yr ysbryd, ni gawn ryddid ysbrydol, rhyddid oddiwrth bechod, oddiwrth annedwyddwch amheuaeth, oddiwrth feddyliau gwael am Dduw, ac am y natur ddynol, ac yn enwedig oddiwrth

y gwendid ffol hwnnw o osod offeiriad, neu gredo, neu lyfr, rhwng ein henaid â Duw.

Felly yn mhob peth sydd yn dal perthynas â'n bod, ufudd-dod sydd yn rhoddi gwir ryddid. Nid yw rhyddid ddim yn dyfod trwy ei ddiddymu, neu ei droseddu, neu ei ochelyd, ond trwy ufudd-dod trwyadl i'w gyfreithiau. Mae ufudd-dod yn ein dwyn i gyssondeb â chyfraith, i gymundeb agos ag Awdwr ein nhatur, yn yr hwn yr ydym yn byw, yn symud, ac yn bod, yr hwn hefyd yw ffynonell fawr pob cyfraith.

OSGAR CLUTE.

LLYSIEUAETH PALESTINE.

(Gwel tud. 116).

MAE Palestine o ran ei chyfansoddiad arwynebol, a'i hinsawdd, yn ffafrio gwahanol rywogaethau o lysiau; ond nid oes yn llysiau y wlad yma y gwahaniaeth ellid ddisgwyl. Mae y *Cape of Good Hope* mor debyg i Palestine yn ei hinsawdd a'i harwynebedd, ag sydd yn bossibl i ddwy wlad fod, ac etto y mae eu hamrywiaeth llysieuol i'r gwrthwyneb yn hollol. Mae y flaenaf yn engraifft o'r amrywiaeth llysieuol lleiaf, a'r olaf o'r mwyaf.

Mae mwy o amrywiaeth yn llysiau deheubarth Affrica nac sydd i'w ei gael mewn unrhyw barth arall o'r byd; ac y mae llysiau Prydain, a phob gwlad arall yn Europe, yn llawer lliosocach mewn rhywogaethau na gwlad Canaan. Mae, ar yr un pryd, y rhywogaethau sydd yn tyfu ynddi yn amlach nac mewn un wlad arall o'i maintioli; peth cyffredin ydyw iddynt guddio erwau lawer mewn mantell o brydferthwch dihafal. Nid oes yn y wlad yma ond ychydig blanhigion a llysiau brodorol; dyfodiaid ydyw y rhan fwyaf o honynt o wledydd amgylchynol; o Europe, Asia, Ynysoedd Môr y Canoldir, Groeg, Asia Leiaf, yr Aipht, Persia, Arabia, ac hyd yn nod India. Mae y rhan fwyaf o blanhigion Palestine yn perthyn i un neu'r llall o'r gwledydd hyn. Mewn ymddangosiad, a hynny yn unig, y mae planhigion Palestine yn ymdebygoli i rai gwledydd sydd a'i harwynebedd yn gyfansoddedig o'r *gareg galch.*

Bernir nad ydyw hinsawdd Palestine wedi cyfnewid o ddyddiau Moses hyd yn bresenol; ond er gall fod ei hinsawdd yr un, gellir ar seiliau cedryn farnu fod y wlad yn llawer iawn mwy sych nac yr oedd yr amser hwnnw. Mae yr Hen Destament yn tystiolaethu fod y wlad yn amser Moses yn wlad ffrwythlawn; yr oedd gan hyny yn wlad ag oedd yn cael ei dyfrhau yn dda. Sonia am goedwig Ephraim, a choedwig Hareth, yn mha un y bu i Dafydd ymguddio, am goedwigoedd o dderw a'r fynyddoedd Bashan, am gedrwydd Lebanon, ac am Balmwydd Jericho; ond torwyd i lawr y coedwigoedd yn ystod y ddwy fil o flynyddau o ryfeloedd a chyfnewidiadau gwleidyddol a ysgubasant tros wyneb y wlad; ac y mae effaith yr anrhaith yn argraffedig ar ei gwyneb hyd y dydd heddyw. Mae y llysiau a feithrinai y coedwigoedd yn eu cysgodion wedi rhoddi lle i eraill mwy caled; mae y ffynonau dyfroedd a'u cornentydd wedi sychu i fyny; mae y tir wedi ei ymddifadu o'i ffrwythlonrwydd, ac

yn cael ei adael yn ddigwrtaith; ac y mae rhanau helaeth o'r wlad a fuont unwaith yn addurnedig a chnydau toreithiog, gwinllanoedd cyfoethog, olewydd canghenog, yn awr yn lwch sychlyd, yn graig noeth, neu yntau yn wastadedd diwerth. Mae y cyfryw gyfnewidiadau wedi eu dwyn oddiamgylch gan y cyffelyb achosion, wedi taflu mantell dystryw tros diriogaethau boreuddydd gwareiddiad; fel nad ydyw iaith eu hynafiaethwyr, desgrifiadau eu beirdd, na thystiolaeth eu daearyddwyr, yn briodol iddynt yn ein dydd ni.

O herwydd y cyfnewidiad a nodwyd, y mae llawer o blanhigion anadnabyddus yn yr hen amser wedi gwreiddio a gwneyd eu cartref ynddi. Mae rhywogaeth o *Gyngbaw* idd ei gael yn gyffredin o amgylch Jerusalem. Nid tebyg ei fod yn adnabyddus cyn amser gwasgariad yr Iuddewon. Drain, a mieri, pa rai ydynt arwydd o dir diffrwyth a digynyrch, sydd yn mhob man yn llenwi llygaid yr ymdeithydd. Mae dyffryn Esdraëlon, a bryniau Judah yn orchuddiedig ganddynt. Ond y rhyfeddaf o'r rywogaeth ddraenog ydyw yr hon a elwir "*draenen Crist*" o herwydd y traddodiad mai o hon y gwnawd y goron ddrain; etto y mae gwahaniaeth mawr rhyngddi hi a'r hon a arddengys y darluniedyddion Italaidd fel wedi ei plethu yn goron am ben y Gwaredwr. Y mae ei deilen yn debyg i ddeilen yr *Eiddew*, ac o dan pob deilen y mae bach llym, tebyg i fach pysgotta. Mae yn tyfu ar fryniau Jerusalem. Mae hefyd ysgall llawn o bigau llymion, hir, yn tyfu yn nhir digwrtaith Palestine; at yr ysgallen yma mae'n ddigon tebyg y cyfeirir yn Gen. iii. 18, o dan yr enw *Dardar*, ac yn Matt. vii. 16, Heb. vi. 8, o dan yr enw Groegaidd *Tribolon*. Yr oedd Palestine yn yr hen amser yn enwog am ei drain. Dywed yr ysgrifenwyr Rabbinaidd fod yn yr Ysgrythyrau Iuddewig ddim llai na dau-ar-hugain o eiriau yn cael eu harfer, ac oll o honynt yn arwyddo planhigion draenog neu bigog. Mae y geiriau Hebraeg *Koz, Naazur, Shail, Shamir, Sillon, Sirim, Sirpad Zinnim*, wedi cael eu cyfieithu yn ddrain, a mieri, yn ddiwahaniaeth. Yn ddiweddar y mae rhywogaethau draenog Palestine wedi lluosogi yn ddirfawr trwy ychwanegiadau o wledydd eraill, ac hyd yn nod o Brydain; ac y mae yr hen rywogaethau wedi ymledu oddiar y mae y wlad wedi ei gadael yn ddigwrtaith. Geilw teithwyr hi yn awr yn "Wlad y Drain." Cyflawniad hynod o'r brophwydoliaeth "Cyfyd drain a mieri ar dir fy mhobl, ïe, ar bob tŷ llawenydd yn y ddinas hyfryd." Ond na feddylied y darllenydd fod Palestine drwyddi oll yn ateb y desgrifiad ydym wedi ei roddi; y mae ynddi fanau o brydferthwch diail. Gwir y gall yr ymdeithydd edrych am oriau ar ddim, ond ar fynyddau uchel, llwm, ar greigiau daneddog o'r gareg galch, nes y bydd ei lygaid wedi blino; ond fe ddichon iddo mewn un fynud wedi hyny, daflu ei olygon ar wastadeddau mor hardd nes o'r braidd y meddwl fod byd newydd yn ymagor o'i flaen. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng gogledd a dehau Palestine yn hyn. Pwy sydd heb glywed am brydferthwch amryliw dyffryn Ghutah neu wastadedd Damascus? Gelwir ef "yn llygad" y Dwyrain. Mae wedi cael ei ddarlunio gyda'r brwdfrydedd mwyaf o ddyddiau Esai, hyd yn awr. Cwmydd Lebanon, er eu bod wedi colli eu gogoniant, ydynt etto yn cadw graddau helaeth o wyrddlesni, hyd at ymyl yr eira tragwyddol. Ynddynt y tyf coed fer, derw, juniper, gwinwydd, mulberry, tra y mae

cnydau o wenith, haidd, ffa, &c., megys yn cael eu tywallt o law doreithiog natur, nes eu gwneyd yn ailuog i ddal cydmariaeth a pharthau mwyaf ffrwythlon y byd. Mae gwin, a tobacco Lebanon, yn fwy gwerthfawr nac eiddo un wlad arall. Yno gellir cael tri chnwd o datws o'r un dernyn tir mewn un flwyddyn, a'r rhai hyny gystal ac a dyfodd yn yr Iwerddon erioed. Tua chanolbarth Lebanon y mae yr olewydd yn tyfu, pa rai a gynyrchant y fath oreu o olew. Yn y dyffrynoedd isel y tyf holl blanhigion y trofanau. Gellir cael yno mewn tri neu bedwar mis pine apples," a bananas o'r fath oreu, a hyny yn yr awyr agored, trwy nerth hinsawdd yn unig. Mae yn anmhosibl desgrifio y blodau gwylltion a orchuddiant y maesudd, nes cuddio y ddaear megys llawrlen, pa rai gan mwyaf a dyfir yn ein gwlad ni trwy nerth celfyddyd. Mae pawb ag sydd wedi gweled y parthau hyn, y rhai ydynt yn bresenol yn drigfanau y Bedouin crwydrol, yn cyduno yn hyn "nad ydyw Palestine yn wlad wedi ei difaethu; ond ei bod megys yn aros adeg, pan y bydd i'w thrigolion fod yn fwy diwyd, a'i llywodraeth yn fwy cyfiawn a nerthol, er bod etto yr hyn a fu unwaith "yn etifeddiaeth Duw," "yn wlad yn dylifo o laeth a mêl," yn "wlad gwenith, haidd, a gwinwydd, ffigyswydd, a phomegranadwydd."

Mae un pren yn Palestine nas gallwn fyned heibio iddo yn ddisylw. mae wedi ei gydblethu a'n dychmygion boreuaf, sef cedrwydd Lebanon. I'r Iuddew bob amser yr oedd yn adgof o'i wlad. Pren neillduol Palestine ydoedd cedrwydd Lebanon. Mae i bob gwlad ei phren neillduol, o amgylch pa un yr ymglyma hanes a thraddodiad—derwen Prydain, bedwen Scotland, pinwydden Norway, olewydden Italy, orange Spain, palmwydden y Dwyrain, ond cedrwydden Lebanon ydyw pren Palestine. Mae ysgrifenwyr y Bibl yn aml yn ei desgrifio yn gydmariaethol. Mae yn gymmhlethedig â barddoniaeth y Salmydd; "Preniau yr Arglwydd ydynt lawn sugn, cedrwydd Lebanon y rhai a blanodd efe." Ni thyf cedrwydd, neu y pren a elwir yn gedrwydd Lebanon, yn un man yn y byd yn naturiol ond yn Lebanon. Mae y gair Hebraeg a gyfieithir *cedrwydd*, sef y gair *eres*, yn golygu llawer math o goed o gyffelyb ryw. Rhaid fod y pren cedrwydd, ag y cyfeirir atto yn Leviticus, yn bren gwahanol, yn ryw fath, fe ddichon, o juniper, yr hwn a dyfai yn agenau creigiau Sinai, o herwydd nid ydyw cedrwydd Lebanon yn tyfu yn anialwch Arabia, ac nis gallasai yr Israeliaid gael gafael ynddo yn eu gwlad gynhenid. Mae llawer o goed a elwir yn gyffredin yn gedrwydd, megys cedrwyden wen gogledd America, yr hon sydd yn hytrach yn gyprwydden. Cedrwydden goch Virginia, o ba un y gwneir *lead pencils*, juniper ydyw. Gellir ei galw felly, ond ni thyfodd y pren a elwir "*Cedrwydden Libanus*" yn un man erioed yn naturiol, ond ar fynyddoedd Libanus, gogoniant ac ardderchawgrwydd pa rai a fu unwaith, a gweddill mwyaf mawreddog pa rai ydyw yn bresenol. Pa un a fu i Solomon, a'r pedwar ugain mil bwyeill a gyflogodd efe, eu dinystrio, neu yntau a oes rhyw gyfnewidiad naturiol wedi digwydd er attal eu tyfiant, nis gwyddom, ond hyn sydd ffaith, nad oes yn bresenol, hyd yn nod ar Lebanon ei hunan, fwy o gedrwydd nac a orchuddia ddwy erw o dir. Mae yr hyn a ragddywedwyd wedi ei gyflawni "A phreniau gweddill ei goed ef a fyddant o rifedi fel y rhifa plentyn hwynt."

I. T. Williams.

JOHN xix. 17. "Ac efe gan ddwyn ei groes." Yr oedd yn arfer i beru i ddrwgweithredwyr, tan ddedryd marwolaeth, ddwyn eu croes ar eu cefnau i'r lle y byddent i gael eu croeshoelio. Ein hawdurdod yw Plutarch ac Artemidorus. Dywed y blaenaf "A phob un o'r drwgweithredwyr ag ydynt i'w cospi yn y corph a garia ei groes ei hun." "Mae y groes," medd Artemidorus, "fel angeu, yr hwn sydd i'w hoelio wrthi sydd yn gyntaf yn ei chario." At yr arfer hon y cyfeiria Crist pan y dywed, "A'r hwn nid yw yn cymmeryd ei groes, ac yn canlyn ar fy ol i, nid yw deilwng o honof fi."—Mat. x. 38. Hynny yw, rhaid iddo ymwadu yn hollol âg ef ei hun, a bod yn barod, os bydd achos, i osod i lawr ei fywyd drosto!

John xix. 20. "Oblegid agos i'r ddinas oedd y fan lle y croeshoeliwyd yr Iesu." Gosodid drwgweithredwyr i farwolaeth yn y fan lle y byddai mwyaf o dramwy. Dyma'r fan y plannid y groes, ac i'r man yma y byddai yn rhaid i'r condemniedig ei chario, os byddai yn abl gwneuthur hyny. Yr oedd Crist yn rhy wan i'w chario, yna gosodwyd hi ar gefn Simon o Cyrene, "yr hwn oedd yn myned heibio wrth ddyfod o'r wlad." Dichon y gwyddid fod y gwr hwn wedi dangos parch i'r Iesu, ac mai o falais atto y cymhellwyd ef i gario'r groes. Y dyben yn gosod dynion i farwolaeth ar ochr y ffordd ac yn y man mwyaf poblogaidd, oedd er mwyn peri dychryn ar ddynion. Dywedir i Alexander Fawr orchymyn osod eunych i farwolaeth y groes ar ochr y ffordd y tramwyai ei weision yn ol ac yn mlaen i'w balas yn y wlad, i'r dyben i'w dychrynu. "Mor fynych bynnag," medd Quinctilian, "y byddom yn croeshoelio troseddwyr, dewisir y ffyrdd mwyaf cyhoeddus, lle byddo i'r nifer amlaf i weled, ac i gael eu cyffroi ag ofn."

MYFYRIWR.—Casglu ydych, debygwn, fod yr adnod y cyfeiriwch atti yn cadarnhau yr athrawiaeth o lwgr gwreiddiol. "Wele mewn anwiredd y'm lluniwyd," medd y Salmydd, "ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf." Sal. li. 5. Yn ol yr athrawiaeth ryfeddol honno, crewyd dyn ar y cyntaf yn bur, ac heb un tuedd yn ei natur at bechod. Anufuddhaodd i orchymyn Duw yn Eden. Y canlyniad fu, cyfnewidiodd ei natur. Hyd yn hyn yr ydoedd yn bur, ond aeth weithiau yn llygredig—yn dueddol i bob drwg. O'r blaen nid oedd ynddo duedd i bechu; yn awr wele ei natur yn halogedig. Gwnaeth ei anufudd-dod gyfnewidiad trwyadl yn ei gyfansoddiad eneidiol. Nid oedd ynddo mwyach ddim da. Ac nid hyn yw'r cyfan. Pe buasai y cyfnewidiad yn gyfyngedig i Adda ei hun—pe buasai ond efe yn unig i ddioddef oherwydd ei anufudd-dod—ni fuasai dim i ddyweyd. Cyfiawn yw i ddyn ddioddef am ei ddrwg. Ond y peth yw, dywedir i effaith ddinystriol y weithred, sef llygredigaeth natur Adda, gael ei drosglwyddo i'w holl hiliogaeth ar ei ol, a hyny trwy genhedliad. O ganlyniad meddylir fod y Salmydd yn yr adnod uchod yn cyfeirio at lygredigaeth dyn yn "y cwymp"—"Mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf," sef "yn llwgr y cwymp y cenhedlwyd fi." Yn gymmaint a'ch bod yn gofyn ein meddwl ni ar yr adnod, addefwn ar unwaith nad ydym yn credu yr esboniad. Yn gyntaf, yr ydym yn gorfod gwrthod yr athrawiaeth o lwgr gwreiddiol. Credu ydym na chymmerodd un cyfnewidiad eneidiol le yn Adda—cyfnewidiad cyfansoddiadol yn ei

enaid, feddyliwn. A hyn yw'r pwynt. Credu ydym fod cyfansoddiad eneidiol ei natur yr un peth wedi iddo bechu a chyn iddo bechu. Onid yw y ffaith i'r gorchymyn gael ei roddi yn arwyddo y gwyddai y Creawdwr y gallasai Adda o ran ei natur fwyta o ffrwyth y pren hwnnw, er y gwyddai fod yn ddrwg gwneuthur felly? Hefyd, os oedd ei natur yn bur—heb ynddi allu i gyflawnu drwg, pa fodd yr anufuddhaodd? A ydoedd y Creawdwr wedi gwneyd ei waith yn ammherffaith? Os ydoedd ammherffeithrwydd wedi cymmeryd lle yn ngwneuthuriad cyfansoddiad eneidiol Adda, yna nid ydoedd yn bur, ac nid ydyw yr athrawiaeth yn wir. Os y gallasai anufuddhau cyn cyflawniad y weithred, sef bwyta o ffrwyth y pren, yn sicr ni wnaeth cyflawniad y weithred un cefnewidiad personol ynddo. O ran ei natur yr ydoedd o hyd yr un peth. Am hyny, gan nad beth sydd i feddwl wrth yr alegori yn Genesis, yr ydym ni yn rhwym o gredu na all fod yn yr adnod hon un cyfeiriad at y llwgr gwreiddiol. Duw yw awdwr doeth a daionus ein natur, ac nid oes dim dadl nad ydyw hi yr un peth yn awr ag ydoedd pan y crewyd y dyn cyntaf. Gwir yw fod dynion yn gwahaniaethu yn eu cyfansoddiadau eneidiol fel naturiol neu corphorol. Mae un yn fwy agored i'r ffaeledd hyn, a'r llall i'r ffaeledd arall. Dyna'r cyfansoddiad mae'r naill a'r llall wedi gael. Nis gallwn help hefyd i'r amgylchiadau yn mha rai yr ydym yn cael ein geni ynddynt. Pa fodd mae cyssoni y pethau hyn â'r athrawiaeth gyffredin o gyfrifoldeb dyn sydd bwnc gwahanol. Un peth sydd sicr, sef fod yn ddyledswydd arbenig ar bob dyn i wrthwynebu y temtasiwnau hynny i ba rai y teimla ei fod yn fwyaf agored. Yn olaf yr ydym yn gwrthod yr esboniad cyffredin o'r adnod hon, oblegid mae'r cyssylltiad yn dangos yn eglur fod awdwr y Salm, Dafydd yn ddigon tebyg, wedi cyflawnu rhyw ddrwg mawr, ag y mae yn awr yn edifar ganddo. Dywed pe buasai wedi cael ei genhedlu a'i eni mewn pechod, na allasai byth gyflawni gweithredoedd waeth. Yr ydym yn gobeithio y rhydd y sylwadau hyn foddlonrwydd i chwi; o leiaf nid oes genym ni ddim sy yn well i gynyg i'ch sylw fel atteb i'ch gofyniad.

Y TESTAMENT NEWYDD.

Saif enwau Griesbach a Tischendorf mewn hir goffadwriaeth fel cymwynaswyr eu hiliogaeth, am eu hymdrech diflino i geisio copi cywir i ni o Ysgrythyrau y Testament Newydd. Mae'n hysbys i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD fod y cyfieithiad awdurdodedig Seisnig a'r cyfieithiad cyffredin Cymreig, er eu holl ragoriaethau, yn ddiffygiol ar amryw ystyriaethau. Maent wedi eu sylfaenu ar y darlleniad Groeg a gyhoeddwyd yn 1516 gan Erasmus, a chan Stephens yn 1550. Yr oeddynt hwythau wedi sylfaenu eu Testamentau o'r ysgrifau a ysgrifenwyd wedi'r ddegfed ganrif. Mae llawer iawn ó ysgrifau a rhai llawer henach wedi eu dwyn i glawr wedi hyny, ac felly llawer o oleuni newydd wedi ei daflu ar bwnc darlleniad cywir ein hysgrythyrau. Mae Testament Griesbach wedi ymddangos eisoes mewn gwisg Gymreig, dan yr enw, "Oraclau Bywiol," cyfieithedig gan J. Williams, 1842. Nid yw hwn erioed wedi

dyfod yn boblogaidd ac nid yw yn debyg o ddyfod mwy. Mae ei ieithwedd yn drwsgl iawn, ac yn hollol ddiangen felly, gan fod y cyfieithiad cyffredin wrth law. Ond y mae yn ddiamheu ei fod yn gynnorthwy i'r myfyriwr unieithog. Yr hyn sydd arnom eisieu yn y Gymraeg yw cyfieithiad (nid newydd ond) diwygiedig. Mae yn y Saesneg ddau Destament wedi ymddangos yn ddiweddar, y rhai ydynt yn werthfawr iawn, a goreu o'r cwbl, y maent o bris sydd yn eu gosod o fewn cyrhaedd y rhan amlaf o ddarllenwyr. Gellir cael eiddo Samuel Sharpe yn rhydd trwy'r post ond anfon 18 stamp at Mr. Wyche, 22, Hatfield Street, Blackfriars, London; ac am chwe' swllt o stamps anfonir pump copi yn rhydd trwy'r Post. Cyfieithiad allan o Greek Text Griesbach yw hwn, y pumed argraphiad. Dywed yr *Ecclesiastic* am dano: "Y darlleniad Seisnig cywiraf mewn bodolaeth, pa un ynte o'r oll ynte o ran o'r Testament Newydd." Mae'r *English Churchman* yn dywedyd yr un peth. Credwn y dylai fod copi o hwn ym meddiant pob Undodwr a fedr ei ddarllen.

Mae'r Testament arall yn dwyn y penawd "The New Testament, edited by Dr. Tischendorf. Tauchnitz edition." Mae yn cynwys y cyfieithiad Seisnig awdurdodedig, gyda rhagdraeth, a'r darlleniadau amrywiol wedi eu cymeryd allan o'r tair ysgrif mwy nodedig o'r Text gwreiddiol; sef y Codex Alexandrinus (A), C. Vaticanus (V), a'r C. Sinaiticus (S). Mae Tischendorf yn barnu fod (A) wedi ei ysgrifenu tua 450; (V), yr hwn sydd yn awr yn Rhufain, tua 350; a (Y), yr hwn sydd yn St. Petersburg, rywbeth yn gynt. Darganfyddwyd yr olaf, yr hwn yw yr ysgrif benaf ar glawr o'r Testament Newydd, gan Dr. Tischendorf, yn Monachty St. Catherine, ar fynydd Sinai, yn 1844 a 1859. Gwelir desgrifiad manwl o'r ysgrif yma wedi ei ysgrifenu gan y diweddar Owen Evans yn YMOFYNYDD 1860, t. 283, ac 1861 t. 13. Rhoddir gwahanol ddarlleniadau y tri chopi yma mewn nodiadau ar odre'r ddalen yn Nhestament Newydd Tischendorf. Wrth daflu golwg dra brysiog dros y nodau yma yr ydym wedi sylwi fod SV yn gadael allan yr haner olaf o Matt. vi. 13; yr oll o Matt. xii. 47; yr oll o Marc xv. 9—21; mae SVA heb y geiriau "yn aros cynhyrfiad y dwfr" yn Ioan v. 3; (SV) heb adnod 4, ac A yn darllen "Angel yr Arglwydd ymolchai ar amserau." Mae (S) yn gadael Ioan xxi. 25 allan; a'r geiriau "yn drefnwydd yn ol urdd Melchisedec," a (V) yn gadael allan "yn ol urdd Melchisedec," Heb. vii. 21. Yn 1 Tim. iii. 16 mae SA yn darllen "duwioldeb, efe yr hwn."

Mae Testament Tischendorf wedi ei gyhoeddi gan Sampson, Low & Son, 188, Fleet Street, London. S.

PREGETHU ARFERIADOL.—Nid oes dim dadl genym na fyddai perchenogion tai, sydd wedi bod yn *sharko* eu deiliaid trwy yr wythnos, yn llawer mwy boddlon ar y Saboth i hanner cysgu tan bregeth allhoj ar "ddirgelwch," nac i gael eu cadw ar ddihun gan bregeth arferiadol yn gosod allan, yn mhlith pethau eraill, ddyledswyddau Crist'nogion sydd yn berchen tai. Y dirprwy-fasnachwr *(broker)* sydd wedi bod yn chwiredu ar *seal* ardderchog trwy yr wythnos, nid yw yn myned i'r cwrdd ar y Saboth i glywed ei arferion hocedus yn cael eu trin a'u mesur yn ilym wrth reolau y Testament Newydd. Y masnachwr sydd wedi derbyn yn ddiogel i'w ystordy nos Sadwrn reduwyddau *(smuggled goods)* ac un arall

sydd wedi llwyddo i basio trwy y *custom house* lwyth-restr (*invoice*) anwireddus, ydynt yn myned i'r cwrdd i glywed pregeth iachus ar "ffydd," ar "angylion," neu ar "y cwymp yn Eden." Nid yw pynciau o'r fath yn dal un berthynas a'u cydwybod, am hyny disgwylia ar y pregethwr fod yn iawn-ffyddiog. Os ydyw y pregethwr yn disgwyl ar fasnachwyr cyfrifol i subscribo yn helaeth at y weinidogaeth, peidied a *diraddio* ei hun yn y pulpit trwy gymmeryd arno i drafod moesoldeb masnachol. Mae brawd Crist'nogol arall yn ddarllawydd mawr; wrth gwrs nid yw e ddim yn myned i'r cwrdd i glywed progeth ar ddirwest. Daew'r marsiandwr sydd yn chwareu ei alwedigaeth heb betrusder gyda golwg ar enill. Mae ynteu yn myned i'r cwrdd i wrando pregeth, nid ar bechadurusrwydd ymddygiad anonest, ond ar "athrawiaeth." Mae dynion yn gyffredin yn ymofyn dau beth pan yn crefydda—rhyddid i wneyd fel y byddo yn taro iddynt yn y fuchedd hon, a chael addewid am nefoedd yn ol myned oddi yma. Dyma beth yw "gwasanaethu Duw a Mammon." Y pregethwr mwyaf derbyniol yw yr hwn nid yw yn ymyraeth â phechodau eu wrandawyr. Os ydyw am gael llonydd, rhaid iddo ynte roddi llonydd i fedd-dod, cribddeiliaeth, a'r holl bechodau y dywed yr Apostol am danynt, fel yn cael eu cau allan o deyrnas Duw. Gellid meddwl fod yn llawer hawddach myned i'r nefoedd yn awr nac yn amser Crist. Ni fu un peth mwy llwyddianus erioed na'r ddyfais sydd yn caniatau i ddynion fwyniant pechod yma a chael nefoedd yn ol myned oddi yma. O flaen y fath ddyfais a hon syrthia holl ddarganfyddiadau yr athronyddion mwyaf galluog i ddiddymdra. Dyma'r fargen fawr—pleserau pechod yn y byd hwn, a dedwyddwch y nefoedd yn y byd nesaf! Pwy na red ar ei hol?

DAEARYDDIAETH PALESTINA.

Pen. viii.—Trigolion dechreuol o'r Cenhedloedd cymydogaethol.

1. Yr oedd y Canaaneaid yn trigfanu yn y wlad yma, pan yr ymfudodd Abraham o Ur y Caldeaid. Disgynyddion Canaan oeddynt, ac a ddaethant yn foreu iawn o'r dwyrain ac a feddianasant y wlad "o Sidon i Gaza.". (Gen. x. 19)

Pan arweiniodd Moses blant Israel o'r Aipht, i'w mheddianu, yr ydoedd yn meddiant gwahanol lwythau, megys yr Hefiaid, Girgasiaid, Canaaneaid, Hittiaid, Pheresiaid, Jebusiaid, a'r Amoriaid. (Deut. vii. 1.) Trigai yr Hefiaid ar lechweddau dehenol Lebanon; Girgasiaid, y tu dwyrain i fôr Galilea; Canaaneaid, canolbarth y wlad, yn groes iddi, o lan yr Iorddonen hyd y Môr Mawr; a'r Pheresiaid, Jebusiaid, Hethiaid, a'r Amoriaid, y rhan fynyddig i'r wlad tua'r de. Perchenogai yr Amoriaid hefyd ran o'r wlad, o'r tu dwyrain i'r Iorddonen, yr hon oedd dan lywodraeth Sihon, brenhin yr Amoriaid, ac Og brenhin Basan.

2. Heblaw y saith cenedl a nodwyd yr oedd rhai ereill hefyd yn y wlad neu ar y cyffiniau:—

1. Yr Ammoniaid a'r Moabiaid, disgynyddion Lot. Meddianai'r Ammoniaid ran o'r wlad o du'r dwyrain i'r Amoriaid, o ba le yr oeddent wedi gyru ymaith rywogaeth gawraidd—Zamzummiaid. Dywedir yn Deut. ii. 20, "Yn wlad cawri hefyd y cyfrifwyd hi: cawri a breswyliasant

ynddi o'r blaen; a'r Ammoniaid a'u galwent hwy yn Zamzummiaid. A'r Arglwydd a'u difethodd hwynt o'u blaen hwy; a hwy a ddaethant ar eu hol hwynt, ac a drigasant yn ei lle hwynt." Eu prif ddinas oedd Rabbah; a'r ddelw a addolent oedd Moloch.

2. Gorweddai tiriogaeth y Moabiaid o'u tu de i'r Ammoniaid, a rhedai yr afon Arnon rhyngddynt. Yr afon Jabbok oedd eu terfyn ogleddol mewn amser boreuach; ond gyrodd yr Ammoniaid hwynt allan o'r wlad rhwng Jabbok ac Arnon, a sefydlasant yno un o'u teyrnasoedd. Y brif ddinas oedd Ar, neu Rabbath Moab, rhyw 25 milldir i'r de o Arnon. Mae'r ddinas yn awr mewn adfeilion, ond etto yn dal yr enw Rabba. Y prif dduw oedd Chemosh.

Y Midianiaid, disgynyddion Midian, pedwarydd mab Abraham, o Keturah ei ail wraig. Preswyliai y rhai hyn y parth hwnnw o'r wlad ag oedd yn gorwedd o du'r dwyrain a de-ddwyrain i'r Moabiaid, ac yr oedd tir Edom o du'r gorllewin iddynt. Yr oeddent yn elynol iawn i'r Israeliaid; a gwnaethant eu goreu gyda'r Moabiaid i'w hudo hwynt i addoli delwau.

Ymddengys fod llwyth arall o Fidianiaid yn preswylio gerllaw braich ddwyreiniol y Môr Coch (*Gulf of Akaba*); oblegid pan ddiangodd Moses o'r Aipht, efe gafodd nodded yn eu plith, a thrwy briodi Zipporah, daeth yn fab-yn-nghyfraith i Jethro, offeiriad Midian. (Exodus iii. 1; xviii. 2.)

4. Edomiaid, disgynyddion Edom neu Esau mab Isaac. Yr oedd y rhai hyn yn byw yn y wlad fynyddig, ag oedd yn gorwedd yn y Môr Marw a chilfach Akaba. Gelwid y parth hwn, cyn i'r Edomiaid ei feddianu, mynydd Seir, a thrigai yr Horiaid arno. Yn amser caethiwed yr Iuddewon, goresgynodd yr Edomiaid y rhan ddeheuol o Canaan, a chafodd ei henwi oherwydd hyny *Idumæa*. Meddianasant hi mor bell a Hebron, yr hon oedd eu prif ddinas.

Yn y flwyddyn 125 cyn Crist, cafodd yr Idumaeaid eu gorchfygu gan John Hyrcanus, a bu eu gwlad byth wedi hyn yn un â Judea.

5. *Amalekiaid*, disgynyddion Amalek mab Ham. Yr oeddent hwy yn trigianu'r wlad rhwng Idumaea a'r Môr Canoldir. Yr oedd Canaan o du'r gogledd iddynt, a'r Aipht a'r tiriogaethau dibynol arni o du'r de. Cawn eu bod un amser yn byw wrth odre Sinai, canys hwy a wrthwynebasant blant Israel gwedi iddynt ddyfod drwy'r Môr Coch. Yr oeddent yn bobl ddewr ac anturiaethus, a'r genedl gyntaf a ryfelodd yn erbyn yr Israeliaid.

6. Y Philistiaid oeddent ddisgynyddion Mizraim, mab Ham. Daethant o Caphtor (yr hon a feddylir yw Crete), ac a feddianasant lain o dir ar lan y môr, o du'r de-orllewin i Ganaan, o ba le y gyrasant ar ffo yr *Avimiaid*, y perchenogion dechreuol. Yr oeddent yn genedl ryfelgar, a'r gelynion mwyaf ofnadwy a galluog â gyfarfyddodd yr Israeliaid yn ngwlad yr addewid.

CANLYNIADAU MEDDWDOD.

Paham y gwnaeth Ellen Kirby, dynes ieuanc olygus, daflu ei hun i'r afon Medway, a gwneyd diwedd arni ei hunan? "Anngbymmedrol ydoedd yn ei harferion, ac ar y pryd hwnw yn lled feddw." Bu farw.

Paham y gwnaeth John Ralph, morwr, daflu Daniel Bolum i'r afon Thames, pryd bu Bolum yn mron boddi? "Yr oedd John Ralph yn feddw ar y pryd, ac ni wyddai beth oedd yn wneyd." Cafodd bedwar mis o garchar.

Paham y gwnaeth Thomas Clinch bersonoli *detective policeman*, ac ymyraeth yn ddrygionus a rhywrai o ddeiliaid tawel ei mawrhydi? "Yr oedd yn feddw." Ugain swllt o ddirwy.

Paham y ciciodd Edward Maddigan, y nafi, â'i botasau hoeliog, ei wraig oddeutu ei whyneb, ei choesau, a'i chorph, nes y bu yn mron a'i lladd? "Daeth adref wedi meddwi, ac aeth yn gynddeirog am nad oedd ei wraig wedi darparu swper iddo, er na roddai ddimmau o arian iddi i brynu bwyd." Chwech mis o garchar a chaledwaith.

Paham y tarawodd Henry Suggers, llifwr hurweithiol, ei wraig a chanddi blentyn bach yn ei breichiau, â'r fath ergyd dychrynllyd yn ei whyneb, â'i ddwrn, nes y cwympodd i lawr yn ddideimlad, a'i gwaed yn llifo allan o'i geneu? "Daeth adref yn *feddw fel arferol*, a pharhaodd i yfed dros dair awr wedi'n." Pedwar mis o galedwaith mewn charchar, ac yna i ffeindio meichiau am chwech mis dros ymddygiad da.

Paham y gwnaeth Richard Ball, 45 oed, a Richard Ball 21 oed, tad a mab, eill dau yn dal setyllfa gyfrifol mewn masnachdy yn ninas Llundain—paham y gwnaethant achosi "cynnwrf gwarthus" am dri o'r gloch yn y boreu, yn y City Road, ymosod yn ffyrnig ar yr heddgeidwad, defnyddio "iaith ffiaidd a diraddiol," ac mewn amryw fodd ymddwyn "yn anfad." Yr oeddynt "yn feddw." Pedwar diwrnod-ar-ddeg o garchar i'r tad, a'r mab i dalu 4 p. o ddirwy.

Paham y "curodd Thomas Redman ddau o'i blant, ac yna rhoi ergid dychrynllyd i'w wraig, a thaflu cwpanaid o dê poeth arni?" Dychwelodd adref mewn cyflwr o "feddwdod gwallgof."—Chwech mis o garghar.

Paham y bu farw William Charles Barret, yn blentyn pedair wythnos oed? "Oherwydd," medd rheithfarn holiad y trengreithwyr,—"oherwydd gwendid a gwaghâd o achos fod rhinwedd llaeth y fam wedi ei ddistriwio trwy ei bod yn llwyr-ymroddi i arferion meddwol." Cafodd ei senu gan y coronwr. Dywedodd wrthi fod gwaed ei phlentyn yn gorwedd wrth ei drws.

Paham y darfu i Patrick Connor a Johanna ei wraig adael eu pedwar plentyn heb fwyd na maeth ddydd ar ol dydd nes y marw un o honynt, y plentyn lleiaf, mewn "cyflwr teneu truenus?" Gallasent enill o bumtheg swllt ar hugain i ddeugain swllt yr wythnos: ond yn lle gofalu am eu bywoliaeth a'u plant, *ymroddent i feddwdod*, gan fynychu tau tafarnau. Pan farw y plentyn, cafwyd hwynt yn feddw mewn tafarn yn y gymmydogaeth. Yr wythnos honno yr oeddynt wedi bod yn meddwi o ddydd Llun i ddydd Iau! Treiwyd hwynt yn yr Old Bailey, a'r ddedryd oedd carchar a chaledwaith am naw mis.

Paham yr amcanodd "dyhiryn cynhenllyd a chewc ei olwg, o'r enw William Coggan," amcanu cyflawnu "gweithred anifeilaidd trwy rythrymosod ar ferch ieuanc bryderth o'r enw Fanny Abrahams?" Yn ol ei addefiad ei hun, "yr oedd yn feddw, wedi bod yn yfed yn drwm."—Chwech mis o garchar a chaledwaith.

Paham y cafwyd John Smith, harn-weithiwr, wrth eneu odyn, "a'i ddillad wedi eu llosgi oddiar ei gefn, a pheth o'i gnawd yn hongian oddeutu iddo?" Yr oedd yn "*feddwyn diberswad*, ac yn feddw iawn pan y gorweddodd i lawr."—Trengodd yn fuan wedi ei symud i'r ysbytty.

Paham y darfu i Robert Francis Webb, dyn mewn amgylchiadau cyssurus, ymosod ar ei wraig a'i ferch â phocer iasboeth nes bron y torrodd fraich ei wraig, gan fwgwth â llwon dychrynllyd y lladdai efe hi? "Dyn ydoedd o *arferion meddwol*." "Yr oedd wedi bod yn euog o wneuthur ymosodiadau cyffelyb arni lawer gwaith o'r blaen, ac ar y pryd hwn yr oedd yn hollol feddw." Cafodd ei feichio maes o'r carchar—ei wraig ar yr un pryd yn gobeithio y celai ysgrif ysgariad. Gerfu ar yr anwar-ddyn ymrwymo mewn punn cant o bunau, a ffeindio dau o feichiau mewn dau cant a haner o bunau yr un.

Paham y cyflawnodd William Smith weithred ddychrynllyd o hunan-laddiad, trwy yn gyntaf dorri ei geccas, ac yna neidio i'r pond a boddi? "Yr oedd wedi bod yn "ddyn annghymmedrol am hir amser, nes o'r diwedd y dechreuodd ladratta." Cafodd ei osod mewn carchar, ond gan iddo gael ei feichio allan, parhaodd i yfed, ac aeth, fel y tybid, yn wallgof. Yr oedd yn 32 oed, a chanddo wraig a phum o blant.

Paham y cafodd Mr. Tozer, teithydd marchnadol o Le'rpwl, ei ysbeilio o bwrs yn cynnwys cant a deugain punt o aur? Aeth i wirod-dy, ac wedi iddo yfed llawer ei hunan, a groesawi nifer o weithwyr ac eraill oeddynt yn y ty â pheth yfed, aeth yn *feddw iawn*, a chysgodd yn y tap-room.

Paham yr aeth Evan Lewis i'r dim, ac o'r diwedd i gael help gan y plwyf, dyn oedd unwaith wedi bod yn ffermwr cryf—ei hunan yn berchen ei fferm? "Dechreuoedd ymgyfeillachu a thri neu bedwar cymmydog lled chwannog i'r cwrw," a threilo ei amser a wario ei arian yn y tafarndai oddiamgylch. Y canlyniad fu i bob peth fyned yn ol, ac iddo yntau syrthio mewn dyled. Aeth yn mlaen yn y dull hwn am rai blynyddau gan arwystlo ei fferm ar wahanol brydiau hyd ei llawn werth. O'r diwedd gwerthwyd y cyfan a feddai. Aeth y plant i wasanaeth, torrodd y wraig ei chalon, a gorfu ar yr oferddyn o hono ynteu fyned i'r Union!

Os ydych am fod yn wastad yn sychedig, byddwch yn Feddwyn; oblegid mynychaf a mwyaf yfoch, mwyaf o byd fydd y syched arnoch.

Os ydych am luddias eich cyfeillion i'ch codi i fynu yn y byd, byddwch Feddwyn; oblegid bydd hyny yn sicr o faeddu eu hymdrechion.

Os ydych am wrthsefyll eich hymdrechion eich hunan i wneuthur yn dda, byddwch yn Feddwyn; ac yr ydych yn sicr o lwyddo.

Os ydych yn penderfynu bod yn dylawd, byddwch yn Feddwyn; a chwi fyddwch yn fuan mewn rhacs, ac heb ddimmai yn y byd.

Os ydych am starfo eich teulu, byddwch yn Feddwyn, oblegid byddwch yn sicr o wario eu cynhaliaeth.

Os ydych am i gnafiaid osod arnoch, byddwch Feddwyn; oblegid gwna hyny eu gwaith yn rhwydd.

Os ydych am gael eich ysbeilio, byddwch Feddwyn; oblegid galluoga hyny i'r lleidr wneyd ei waith mewn diogelwch.

Os ydych am bwlu eich synwyrau, byddwch Feddwyn; a chwi fyddwch yn fuan yn ddwlach nac asyn.

Os ydych am fod yn ffwl, byddwch Feddwyn; ac ni fyddwch yn hir cyn colli eich synwyrau.

Os ydych am anaddasu eich hun i gymdeithas resymol, byddwch Feddwyn; oblegyd bydd hyny yn sicr o'ch gwneuthur yn hollol anaddas.

Os ydych yn penderfynu lladd eich hun, byddwch Feddwyn; oblegid byddwch yn sicr o lwyddo.

Os ydych am ddinoethi eich ffolineb a'ch dirgelion, byddwch Feddwyn; oblegid y maent hwy yn sicr o ddianc allan fel mae'r cwrw yn llifo i mewn.

Os ydych yn meddwl eich bod yn rhy gryf, byddwch yn Feddwyn; oblegid mae y fath elyn nerthol yn sicr o'ch gwanhau.

Os ydych am gael gwared o'ch arian heb wybod pa fodd, byddwch Feddwyn; ac y maent yn sicr o ddiflanu yn ddiarwybod i chwi.

Os ydych am fod heb ymgeledd pan fyddoch wedi methu, byddwch Feddwyn; ac ni ellwch ddarparu dim ar gyfer hen oedran.

Os ydych am fod yn bla i'ch cyd-ddynion, byddwch Feddwyn; a gochelant chwi fel y cholera.

Os ydych am alltudio pob cyssur o'ch ty, byddwch Feddwyn; ac ni fyddwch yn hir cyn llwyddo.

Os ydych am gael eich drwg-dybio, byddwch Feddwyn; oblegid er mor lleied ydych yn feddwl, mae pawb yn credu y gwna y sawl sydd yn ysbeilicilo eu hunain a'u teuluoedd, ysbeilio eraill hefyd pan gallont.

Os ydych am fod tan orfod i gilio rhag y sawl sydd arnoch arian iddynt, byddwch Feddwyn, ac ni fyddwch yn hir cyn bod yn well gennych fyned dros gaeau a pherthi nac ar hyd yr heol fawr.

Os ydych am i neb beidio rhoi diwrnod o waith i chwi, byddwch Feddwyn, oblegid nid oes neb a chwennych huria dyn chwannog i'r cwrw.

Os ydych am fod yn bwys ar y wlad, ac "yn diffrwytho'r tir," byddwch yn Feddwyn; oblegid gwna hyny chwi yn ddiwerth, yn ddiymgeledd, yn gostfawr, ac yn faich.

Os ydych am fod yn gasbeth, byddwch yn Feddwyn; oblegid mae sawr meddwyn fel sawr tommen.

Os ydych am eich casäu gan eich teulu a'ch cyfeillion, byddwch Feddwyn; oblegid cyn pen ychydig amser byddant am gael eich gwared.

Os nad ydych yn dewis gwella eich beiau, byddwch Feddwyn; ac ni fyddwch yn gofalu am gyngor da.

Os ydych am dori ffenestri, tori'r heddwch, tori eich hesgyrn, cwympo dan geirt a cheffylau, a'ch cloi i fynu mewn *roundhouses*, byddwch Feddwyn; a bydd yn rhyfedd os na lwyddwch.

Os ydych yn dewis tywyllu pob gobaith mewn bywyd, byddwch Feddwyn; a byddant yn fuan yn ddigon tywyll.

Os ydych am ddistrywio eich corph, byddwch Feddwyn; oblegid mammaeth pob clefyd ydyw meddwdod.

Os ydych am ddistrywio eich enaid, byddwch Feddwyn, fel y byddo i chwi gael eich cau allan o'r nefoedd.

Mewn gair, os ydych yn dewis distrywio eich hun yn gorph, enaid, a meddianau, byddwch Feddwyn; oblegid ni fyddwch yn hir cyn gwybod nad yw yn bossibl dyfeisio gwell ffordd.

Rhyfeloedd o'r flwyddyn 1853 i 1866.—Yn ol llyfryn bychan sydd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar gan y *London Peace Society*, ymddengys i 1,743,491 golli eu bywydau yn ystod y pedair blynedd-ar-ddeg uchod!! Cofiwch mai rhwng dynion a broffesant eu hunain yn Grist'nogion y bu y lladdfeydd a wnaethant gymmaint o ysglyfaeth ar fywydau ein cyd-ddynion. Cymmerodd y cigyddio le yn y Crimea, Germani, Itali (Magenta a Solferino), yn Unol Daleithiau America, Schleswig Holstein, a Mexico. Nid oes dim ammheuaeth nad yw'r rhif aruthrol uchod yn wir. Ymddibyna ar ymchwiliadau ac awdurdod dynion geirwir, ac yn meddu pob cyfleusdra i wneuthur i fynu y cyfrif. Cynnwys y nifer yn agos i ddau cymmaint â nifer trigolion Cymru. Hefyd, nid yw traul y rhyfeloedd melldigedig uchod ddim wedi bod yn llai na 1,913,000,000 o bunau! Dyma swm anferthol, onide? Buasai y swm hon yn ddigon i wneyd cledrffordd oddiamgylch yr holl ddaear, sef 25,000 o filldiroedd, a phob milldir yn costi 76,520 o bunau, neu i sefydlu 382,000 o ysgolion, a gwaddoli pob ysgol â phum mil o bunau. Mor ychydig yw'r effaith mae Efengyl Crist wedi gael hyd yn hyn ar y byd, ac mor bell etto mae proffwydoliaeth Isaiah y'nghylch undeb yr oen a'r blaidd, yr ych a'r llewpard, o gael ei chyflawni! Cofiwch mai mewn mor lleied amser a phedair blynedd-ar-ddeg y mae'r gwastraff ofnadwy hyn ar fywydau a meddianau wedi cymmeryd lle, ac o fewn cof yr oes ieuanc bresenol. Faint o'r un fath wastraff ddigwydd yn y pedair blynedd-ar-ddeg nesaf, nid oes neb ond Duw ei hun a wyr, Yn wir, mae hon yn wers brysur a thorgalonus iawn i bob dyn difrifol.

Fynnon Hynod.—Mae wrth Newton, ger Penybont-ar-Ogwr, ffynnon, yn dwyn y nodwedd canlynol:—Pan fyddo'r *tide* (mae'r ffynon ger llaw'r môr) yn llawn mae'r ffynnon yn isel, ond gyda thrai y *tide* mae'r ffynnon yn llanw. Mae i'r ffynnon drai a llanw; ond nid, fel y gallesid disgwyl, yr un amser a thrai a llanw y môr. Crai yw dwfr y ffynnon, ac ynddi y mae llawer o fobl y pentref yn cael yr hyn sydd yn angen arnynt o ddwfr. Esponiad rydd foddhad.

T.L.R.

GWLADGARWR.—Yr ydym yn hollol o'r un farn a chwi ar y pen. Mae eisiau cael dynion mwy cymhwys o ran gwybodaeth o'r gyfraith wladol i'w gweinyddu. Dyma un o eisiau mawr ein gwlad ni yn awr. Yn ol y drefn bresenol, nid gwybodaeth o'r gyfraith, nac unrhyw addasrwydd neillduol arall sydd yn ofynol gael mewn dyn i'w wneyd yn ustus (*magistrate*) mewn tref neu wlad. Gellid meddwl mai y pethau mwyaf angenrheidiol i'w cael mewn ustus fyddai gwybodaeth gyfreithiol, medrusrwydd i chwalu croes dystiolaethau i'r dyben i gael allan y gwir, y'nghyd a chymmeriad moesol a thymherau da. Disgwylir mewn meddyg wybodaeth o'r cyfansoddiad dynol, natur ac achosion clefydau, a'r cyffelyb, ac mewn cyfreithiwr, wybodaeth o'r gyfraith. Felly hefyd pawb eraill, p'un ai crefftiwr neu beth bynnag fo. Disgwylir fod addasrwydd ynddo at ei alwedigaeth: ond am y swydd bwysfawr o ustus—swydd ar ba un mae cyfiawnder a heddwch gwlad a chymmydogaethau yn ymddibynu i raddau helaeth, ni waeth, debygid, beth fyddo addasrwydd dyn. Os y digwydda gael ei eni i stâd, neu y llwydda i grafu cyfoeth yn nghyd, ni waeth pa fodd, mae yn addas i eistedd ar fainc yr ustusiaid! Nid yw o fawr wahaniaeth, be byddai ond hogyn difarf, anwybodus, a dibrofiad, os oes ganddo gyfoeth, mae yn addas i fod yn ustus! Y canlyniad yw, yn y *mitingon*, mae'r ustusiaid fynychaf yn ymddibynu ar eu clerc. Peth ddywedo efe sydd yn sefyll, ac y mae yn dda ei fod ef yn fynych i hyfforddi y synwyr ustusawl. Er hynny, nid anfynych y gwnant ryw *botch* anferthol yn eu penderfyniadau, a hyny weithiau ar gost cyfiawnder a heddwch cymmydogion. Mynych hefyd y clywir y *Judges* yn y sessiwnau yn achwyn yn deilwng ar yr ustusiaid am ddanfon o'u blaen ryw achosion distadl—na fyddai ustus a wyddai ei waith, ddim deng mynyd yn eu penderfynu, a hyny yn iawn, ac i foddlonrwydd y gymmydogaeth neu'r dref. Mae ustusiaid anaddas hefyd yn agored i daflu cost afreidiol ar y siroedd, a thrwy hyny i drymhau y *county rates*. Eisiau sydd ar y wlad gael *stipendiary magistrate* yn mhob cymmydogaeth. Wrth stipendiary magistrate y deallwn magistrate yn deall y gyfraith, yn addas yn mhob ystir i drafod achosion cyffredin y wlad—y fath a ddygir fynychaf ger bron yr ustusiaid, ac yn derbyn cyflog am ei waith. Ni fyddai ei gyflog ddim mewn cydmariaeth i'r cost y teflir y siroedd iddynt yn fynych trwy anfedrusrwydd ac anwybodaeth ein ustusiaid presenol, sef y "mawrion didâl." Clywsom am *gas* a gostiodd ddim llai na thri-ugain punt o leiaf i sîr—*cas* a allasai stipendiary magistrate benderfynu yn y fan. Mae eisiau goleuo'r wlad ar y pen hwn, fel mewn llawer o bethau eraill.

EIN CYRDDAU CWARTEROL.

SYR,—Mae yn hyfrydwch nid bychan gennyf bob amser ddarllen hanes ein cyrddau cwarterol yn yr YMOFYNYDD, a chefais ddyddordeb neillduol wrth ddarllen hanes y cwrdd diweddaf yn y Llwyn. Ond y peth wyf am ddwyn eich sylw atto yw y sylwadau byr sydd gan Mr. Thomas ar ddiwedd ei ysgrif. Dywed mai rhy fach o gyfrinach sydd rhyngom a'n gilydd yn y cyfarfodydd hyn, a phwy fedr ei ammeu? Yr ydwyf wedi

rhyfeddu lawer gwaith beth all fod y rheswm o hyn. A ydyw ddim yn bossibl cael gwelliant? Ar y pen hwn mae ein brodyr yn Lloegr yn rhagori llawer arnom ni. Treiliant hwy ran o'r amser mewn rhoddi hanes i'r gwyfodolion sefyllfa eu gwahanol gynnulleidfaoedd yn eu talaith, dyfeisio cynlluniau i ledaenu'r achos, a chydymgynghori â'u gilydd yn ngylch y moddion goreu i wneyd hynny. Paham na wnaem ninneu dreilio rhan o'r amser mewn cyffelyb fodd? Mae sylw Mr. Thomas yn nghylch y dull o bregethu hefyd yn lled bwrpasol. Yn wir, mae eisiau mwy o'r elfen boblogaidd yn eu plith. Syn yw meddwl fod cymmaint o lefydd o amgylch i ni, megys Dowlais, Castellnedd, Cwmafon, Mountain Ash, Cwm Rhondda, Dinas, Llanelli, Caerdydd, a llawer o lefydd poblogaidd eraill, lle mae cannoedd o Undodiaid yn trigianu, heb addoliad Undodaidd; a llefydd ydyw y rhai hyn allent gynnal achosion blodeuog. Er fy mod yn credu mai ar yr Undodiaid yn y llefydd hyn mae'r esgeulusdod mwyaf, etto byddai yn fuddiol, debygwn, i ni yn ein cyrddau cwarterol, ac yn yr YMOFYNYDD, gymmeryd y pethau hyn dan ein hystyriaeth. Yn wir, ymddengys i mi fod eisiau mwy o sel a bywyd yn ein plith. Gobeithio yr esgusodwch yr ychydig sylwadau ammherffaith hyn. Gan ddymuno pob llwyddiant i'r YMOFYNYDD,

Ydwyf yr eiddoch, &c.,

Maesteg, 20 Mai. L.

TEIMLADAU GWRAIG Y GLOWR YN AMSER TANCHWA (*Explosion.*)

Cyn agor dorau'r dydd
Gan fysedd cain y wawr,
Pan guddiai t'w'llwch du
Prydferthwch daear lawr,
Pryd hyn y glowr dewr,
Adawai'i gartref cu,
Gan deithio'n chwyrn i lawr
I eigion daear ddu.

Ha! wele'i wraig ddinam;
Darllenir yn ei gwedd,
Fod ganddi dyner wr,
Yn gwylio ar ei hedd;
Dedwyddwch chweru'n llon,
O fewn ei mynwes fwyn,
Nes adlewyrchu'n glaer,
Drwy'i gruddiau llawn o swyn.

Yn ngrudd ei baban bach
Mae'n gweled delw'i dad,
Ac yn ei wên llawn swyn
Gwel fwy nac angel mad.
Ddarllenydd, welest* ti
Y lli pan bo heb dòn
Dan wenau'r haul,—os do
Cest ddrych o fynwes hon;

Ond ust! rhyw dwrw sydd
Ofnadwy drwy y fro,
Mae pawb a'u gwedd yn grudd
Yn cyrchu draw ar ffo!

---

* Welaist yw y gair uchod.

Yn haner gwallgof rhed
  Hoff wraig y glowr cu,
Gan waeddi "Beth yw hyn
  O Dduw, a'i tanchwa fu"!!

Lleddfu'i heirias fron
  'Does atteb o un man,
Ond "Tanchwa! Tanchwa erch,"
  Barabla'r cryf a'r gwan!
Gan lapio'i baban bach
  Yn frysiog yn ei chol,
Fel ewig ymaith rhed
  I'r fan trwy odreu'r ddol.

"Fy ngwr, fy ngwr," medd hi,
  A'i llais yn rhwygo'r nen,
"Fy ngwr, a'i marw 'rwyt,
  "Heb neb i ddal dy ben.
"O! na chawn fyn'd i lawr"
  Medd serch ei chalon gun,
"A marw yr un man,
  "Os marw yw ef ei hun.

Am enyd sefyll wnai
  'N wywedig iawn ei gwedd
Gan dd'weyd, "a'i breuddwyd hyn,
  "A'i yntau ffaith ddihedd?
"A yw fy nhyner wr
  "Oedd gyneu'n iach a llon,
"Yn gado'r ty'n ei nerth
  "Yn farw'r adeg hon!"

Ffug obeithio weithiau mae
  Ca etto'i wel'd yn fyw,
Ac O'r fath uchel hedd
  Rydd hyn i'w mynwes wyw!
Ond daw anobaith du
  Gan watwor tyb mor wan,
A gwasg o'i chalon brudd
  Ddwys ddagrau fyrdd i'r lan.

Fel môr ar ddydd ystorm
  Ymferwai 'i mynwes lawn
Un seren glaer uwch ben
  Ei theimlad du nis cawn,
Anobaith sathra'i lawr
  Forwynig lan a choeth,
Fel cwyr yn toddi mae
  Yn ngwres y danchwa boeth.

Ha! beth yw'r siriol wên
  A wisga'i gruddiau siw
'N ddisymwyth,—cofio wnaeth
  Fod Tad y weddw'n fyw,
A chadd o'i dyner law
  Falm i wella'i chlwy'
Mewn gobaith cwrdd a'i gwr
  Lle na bydd tanchwa mwy.

Post Office, New Tredegar. IOAN DDEWR.

TRI ENGLYN O GLOD I MR. T. EDWARDS, ODDFELLOWS' ARMS, GLYN NEDD.

Gwr o yni gwir enwog,—yw'n Edwards
A'n odiaeth gymydog,
Nid o ryw a nodau rôg,
Ond da hylaw dihalog.

Gwron yw ef a gerir,—yn Glyn Nedd
A glew'n wir fe'i perchir,
Anrhydedd a hedd yn hir
I'n gwr enwog a renir.

O'm henaid y dymunaf,—i'n Edwards
Ein Odydd serchaf,
Fod ei oes yn fyd o hâf,
Trwy wenau Iôn tirionaf.

GWILYM GLAN NEDD.

CLOCH Y LLAN.

O! mor ddwys mae'r gloch yn galw
Am ryw un sydd wedi marw;
Hen wr ydyw, pedwar ugain,
A fu gynt yn llencyn cywrain;

Bu drwy'r plwyf fel yn ddiareb
Am ei synwyr a'i ddoethineb;
Ond mae'r einioes wedi darfod,
Rhaid ei guddio yn y beddrod.

Taena'r awel dros y bryniau
Sain sy'n duo ael y boreu,
Heddyw etto; mawr y galar,
Gelwir mam i bridd y ddaear;
Swn y gloch sy'n rhoddi rhybydd
Am y gladdedigaeth newydd,
A phob adsain bair ochenaid
Yn mron deg o blant amddifaid.

Egyr haul ei lygad llachar,
Tremia'n llon ar dlysni'r ddaear,
Chwery'r awel yn y llwyni,
Perlia'r gwlith ar y briallu;
Ond y gloch, och! sain pruddhaol,
Cyfnewidia'r olwg siriol:
Galw mae am lodes landeg
Acw i huno dan y gareg

Gwel y baban bach yn gwenu
Ar ei fam pan gyntaf ddeffry;
Gwel y rhosyn yn ymwrido
Ar ei foch, rhwng gwallt yn cwrlio;
Gwel ei lygad yn tywyllu!
Gwywa'r rhosyn, yntau'n trengu!
Cofia blentyn mwyn daw amser
Geilw'r gloch tydi ar fyrder.

DEDWYDDWCH TEULUAIDD.

Hoff destyn fy'm cân yw "Dedwyddwch Teuluaidd,"
Hoff destyn caruaidd, gwobrwyaidd, i'm bryd,
Blaenredwr tangnefedd i'r anedd wâr unig,
A llys y pendefig arbenig y byd;
Dedwyddwch diddiwedd i'r annedd gyfrana,
Bereidd-der ei fara difera ei fêl,
O'i ddiliau'n felusber gordyner ar daeniad,
Yn faeth i wir gariad pob llygad a'i gwel,
Fal egin y greindir yn ir yn blaguro,
Neu ferem yn gweithio, 'n lefeinio'r holl does;
Yn dawel ymleda dedwyddwch mewn teulu
Hyd na bo ymdynu neu gredu yn groes.

Y tad at y fam ymddyga'n garuaidd;
Y fam at y tad yn fwynaidd 'r un fodd;
Rhieni'n gariadus i'r plant fo'nt yn fagu;
Y plant i'w rhieni yn rhyngu eu bodd;
Y plant at eu gilydd heb lid yn eu calon,
A'r gwasanaeth-ddynion yn ffyddlon ddi-ball,
Pob un wrth ei radd a'i sefyllfa mewn bwriad
I weini mewn cariad y naill at y llall;
Cyd-deimlant, cydweithiant, cydwenant, cydganant,
A chyd-ymhyfrydant yn llwyddiant y lle;
Dedwyddwch yw hwn 'run natur yn uniawn,
Os nad yw mor gyflawn ag yw yn y Nê'.

Dedwyddwch yw hwn nas dodir mewn carchar;
E chwifia ei faniar yn gynar i'r gwynt;
Ei awel a ddûg i'r ystyfnig ostyngiad;
Ond caiff gyd-ymdeimlad gwir gariad yn gynt.
Goresgyn gynteddau cym'dogion ac ardal;
O ardal i ardal ymgynal ar go'dd;
Mi glywaf y byd yn dywedyd, debygwn,
Dymunwn a mynwn i minau'r un modd;
Er dechreu'n ddiaddurn mewn bwthyn bach unig,
Cynydda'n fawreddig dros bedwar bán byd;
Pryd hyn bydd dedwyddwch, tawelwch teuluoedd
Y ddaear fal nefoedd yn ddedwydd i gyd.

Cwmdu. DEWI DAWEL.

Wel, beth am yr Eglwys Wyddelig yn awr? Mae wedi pasio trwy Bwyllgor y Ty a'r ail-ddarlleniad. Cymmer y trydydd ddarlleniad le cynted ag y cyferfydd y Senedd wedi gwyliau'r Sulgwyn. Beth am Dy'r Arglwyddi? A ydych yn meddwl y pasia'r ysgrif trwy ei Ty hwy? Ni wyddom ni ddim. Rhai ystyfnig ydyw'r Lords. Gan nad beth, mae dedryd yr eglwys honno wedi pasio; fel Eglwys Sefydledig mae iddi hi farw. Beth wedi'n? Mae ganddi chwaer yn y wlad hon, ac y mae yn llawn bryd gwneuthur yr un gymmwynas a hithau. Ni gawn wel'd.

Pwy feddyliasai, ychydig fisoedd yn ol, y buasai rhyddid crefyddol i'w gael yn yr Yspaen? Ond y mae hyd yn nod yr Yspaen yn awr yn caniatau i bob enwad addoli fel y byddo yn dewis! Dros bwy cyhyd, ni wyr neb. Gobeithio parha i wneyd hynny yn hwy na mae neb yn ddisgwyl. Chwi wyddoch fod Austria yn caniatau yr un fath rhyddid. Mewn gair, mae ryddid i bawb addoli yn gyhoeddus yn awr yn mhob gwlad braidd ond yn llywodraeth y Pab. Mae'r hen

fachgen o hyd yn dal yn ei ammherffeithrwydd, ac yn awr yn paratoi i gynnal peth a eilw'r Pabyddion *Oecumenical Council.* Bydd dau bwnc neillduol i gael ei benderfynu yn y cynghor hwnnw, sef diweirdeb Mair y Forwyn ac anffaeledigrwydd yr hen dad mewn pethau crefyddol. Os ydyw e yn anffaeledig, gellid meddwl mai gwaith ofer yw galw cymmanfa yn nghyd i benderfynu y peth? Onid yw tystiolaeth y gwr anffaeledig ei hun yn ddigon? Os nad ydyw ei air yn ddigon, pa fodd y mae yn anffaeledig?

Gan adael i Ffrainc i benderfynu ei hetholiadau seneddol sydd yn awr yn achosi cymmaint o swn yn Paris, ni ddychwelwn i Gymru. Dywedir fod 200 yn Sir Aberteifi wedi cael rhybudd gan y tir-feistri i ymadel â'u lletydd o achos pleidleisio yn eu herbyn yn yr etholiad diweddaf, ac i fod ei haelod seneddol, Mr. Richards, yn bwriadu gosod y ffaith hon o flaen y Ty. Gall y tir-feistri roddi rhybydd i'r sawl a tynnont o'u deiliaid i ymadel a'u ffermydd, ac nid oes dim dadl nad ydynt yn teimlo yn ddwys o herwydd y chwippiad a gawsant gan y cotau llwydon. Nid oes dim dadl hefyd na fydd llawer o'r dynion cydwybodol a gwrol sydd yn awr tan rybydd i ymadel yn golledwyr mawr, a'r cwestiwn yw hyn, A adawa rhyddfrydwyr Cymru iddynt gael y gwaetha? Credu ydym na wnant. Yr oedd yn dda gennym ni gael en cynnorthwy yn yr Etholiad. Onid ine dyledswydd ninnau yn awr yw eu helpu hwythau? Swt mae gwneyd hynny? Mae yn ddigon hawdd. Bydded i holl ryddfrydwyr Cymru ffurfio un Gymdeithas fawr i'r dyben i gasglu swm o arian i gynnorthwyo y sawl sy yn debyg o ddioddef. Nid oes dim ond eisiau i ryw ddau neu dri o ddynion dylanwadol i osod y peth ar droed—i ddechreu. Gwneler casgliadau trwy ein holl gapelydd o bob enwad. Bydd yn dda hefyd gan gannoedd na pherthynant i un capel gyfranu at y fath achos. Dangoswn i'r tir-feistri mai yn ofer y ceisiant arllwys eu hymddial ar bennau y dynion da hyn. At y gwaith etto, fechgyn! Ni gawn y ballot cyn bo hir. Ond hyd nes y caffom hi, dangoswn i'r tir-feistri sydd wedi ymddwyn mor llidus a ffol, nad ydynt hwy ddim i sarnu'r gwan tan eu traed.

Ychydig ddiwrnodau yn ol boddodd pentrefwr yn Estremadura, wrth groesi'r afon Tagus ar geffyl. Gorchymynodd y maer i chwilio am y corph, gan roddi y nodau canlynol er mwyn ei adnabod. "Un lled dduedd yn ei wyneb ydyw, tal o gorpholaeth, ac attal dywedyd arno."

Arfer wael, ffiaidd, atgas, annuwiol, yw tyngu a rhegi; fel geiriau aflan, y mae yn gadael math o lysnafedd ar y genau, ac yn llychwyno hyd yn nod y tir âg atgasedd. Arfer yw nad oes un esgus drosti. Nid yw yn boddhau un o'r synwyrau, tra y mae yn sarhau pob archwaeth dda a theimlad mawreddog.

Pregeth fer i Fechgyn.—Dysgwch fod yn garedig, haelionus, a mawreddog, yn eich ymddygiad. Dichon fod yn yr un ysgol â chwi fachgenyn a chanddo droed glwp; peidiwch dangos iddo eich bod erioed wedi ei gweled. Os oes un yn yr ysgol yn llwm ei ddillad; peidiwch siarad yn ei glyw am ddillad llwm. Os oes un cloff yno; rhoddwch ryw ran iddo yn y chwareu na fyddo yn gofyn llawer o redeg. Os oes yno un yn lled hwyrdrwm; helpwch ef i ddysgu ei wers ac i wneyd ei sum. Cwrteithiwch yn awr, pan yn ieuainc, dymherau da.

Merched.—Mae dau fath o ferched yn y byd. Rhai merched ymddangosant oreu a serchocaf pan fyddont oddicartref. Merched yw y rhai hyn sydd yn dda am *balls,* marchogaeth, *parties, visits, &c.* Y fath arall yw y merched hyny sydd oreu a mwyaf serchog gartref, wrth wely y claf, ac yn mhob peth sydd yn dal perthynas a dyledswyddau teuluol. Rhwng y ddau fath hyn mae gwahaniaeth dirfawr. Mae un yn boen i bawb gartref, mae y llall yn fendith: mae un yn ddystrywgar a gwastrafflyd, y llall yn ofalus, yn gryno, yn lân ei harferion, ac yn taenu dedwyddwch a llawenydd lle bynnag y bo. P'un o'r ddau fath ddewisech yn wraig?

MARWOLAETHAU.

Ionawr 21ain, yn 79 mlwydd oed, Elizabeth, gwraig Evan Jones, Fountain, Cellan, Ceredigion. Claddwyd hi yn nghladdfa mynwent Caeronen, lle y bu yn aelod am 51 o flynyddau. Ar yr achlysur pregethodd y Parch. J. Davies, o Alltyplacca, oddiwrth 1 Thess. iv. 14. Gadawodd briod a thair merch i alaru ar ei hol.

Ionawr 22ain, yn 14 oed, Thomas, mab Thomas a Jemimah O'Connell, o'r Lax, ger Llanbedr. Yn yr angladd pregethodd y Parch. D. Evans, oddiwrth 1 Thess. iv. 13. Yr oedd yn blentyn ufudd i'w rieni, ac yn siampl lawer o'i gyfoedion ieuainc. Nerth gaffo ei rieni i ymdawelu yn y gobaith o ailgyfarfod ag ef mewn byd arall, pan fydd

Dorau a beddau'r byd,
Ar un gair yn agoryd. D. Davies

Mawrth 3ydd, Mari, gwraig Thomas Morgans, Twllygwyddel, yn 43 mlwydd oed, gan adael gweddw a phedwar o blant bychain (y lleiaf ond pedwar diwrnod oed), i alaru ar ei hol. Claddwyd hi y Sadwrn canlynol yn y Gellionen, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle. Teimlir colled nid bychan ar ei hol yn y teulu, ac yn y cylch yr arferai hi droi. Nerth a gaffo'r gweddw i ddwyn y plant bychain i fyny yn ofn yr Arglwydd; y rhai ydynt yn awr wedi eu gadael i'w ofal ef ei hunan,—gwedi cael eu hamddifadu o ofal, gwenau, cyfarwyddiadau, a thynerwch mam. Yr Arglwydd fyddo yn nerth iddynt yn eu galar, a bydded iddynt gydnabod yn ngwyneb hyn oll "Mai ei ewyllys Ef sydd oreu." J. E.

Dydd Sul, y 18fed o Ebrill diweddaf, yn 67 oed, ac yn dra anysgwyliadwy, bu farw James Daniel, Clynyrhelyg, plwyf Llanwenog, Sir Aberteifi. Treuliodd yr ymadawedig fywyd heddychol a didramgwydd. Perchid ef yn fawr yn y gymydogaeth, ac amlygwyd hyn mewn modd arbenig gan y dorf luosog a ddaeth yn nghyd i'w hebrwng i dy ei hir artref y dydd Mercher canlynol. Claddwyd ef ym mynwent Llanwnen. Bernid fod o bedwar i bump cant o bobl yn yr angladd. Yn y ty cyn cychwyn pregethodd y Parch. T. Thomas, Capelgroes. Gadawodd briod a phlant i alaru eu colled ar ei ol, ond cofient y

"Cânt etto ei weled yn y nef,
A llawen bydd yr awr."

Wedi blynyddau o gystudd, ar y 18fed o Ebrill diweddaf, yn 51 oed, bu farw Evan Jones, Pwllgrafel, ger Pontshan, Llandyssul, Ceredigion. Claddwyd ef dydd Mawrth canlynol, yn nghladdfa yr Undodiaid, yn Pantydefaid. Ar yr achlysur pregethodd T. Thomas, gweinidog y lle.

Ebrill y 18fed, yn 67 mlwydd oed, Mr. James Daniel, Clynyrhelig, plwyf Llanwenog.

Crefydd Siams oedd bob amser—bod yr dda
Bod yn ddoeth ei dymer;
Bod yn ddyn calon dyner,
Bod yn iawn i'r byd a'i Ner.

Gwneyd gwyneb hir a gwirion,—deallwch
A dwylla'n cyd-ddynion,
Ni ddaw neb i wyneb Ion,—a rhysedd
Neu hud a gwaeledd yn nod i'w galon. G. G.

Dydd Iau, y 22ain o Ebrill diweddaf, bu farw Rachel, merch Evan a Mary Williams, Black Lion, Cwrtnewydd, Llanwenog, Ceredigion, yn 5 mlwydd oed. Yr oedd yn blentyn tlws, ffraeth, a gobeithiol. Claddwyd hi ar y 25ain canlynol yn mynwent Capelgroes. Mr. T. Thomas, gweinidog y Capel, a weinyddodd ar yr achlysur.

"Aeth diniweidrwydd at ei Duw
Dros fyth i fyw'n ei phurdeb."

Mai 5ed, o'r *palsy*, Jane, priod Mr. Lewis Llewelyn, Pantysgawen, ger Hirwaun, plwyf Aberdar, yn 76 oed. Yr oedd yn hen wraig synwyrol, diwyd, a gofalus, a'i chas bethau yn wastadol oedd twyll, anonestrwydd, ac anmhrydlondeb, ac arferai ymddwyn tuag at arall fel y dymunai gael. Yr oedd egwyddorion y grefydd Undodaidd yn fawr ac yn anwyl yn ei golwg, ac wedi gwreiddio yn ddwfn yn ei chalon a'i meddwl, canys ceffid atteb parod ganddi am y gobaith oedd ynddi yn nghylch yr hyn a broffesai. Bu yn aelod yn yr Hen Dy Cwrdd am flynyddau meithion, a diamheu yr oedd ei rhodiad i fyny i'w phroffes. Y Llun canlynol, ymgynullodd tyrfa luosog i'w hebrwng i "dy ei hir gartref," tua'r *Cemetry*, Aberdar, a chafwyd pregeth gymwysiadol ar yr achlysur, gan y Parch. R. J. Jones, oddiwrth Diar. x. 7. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Claddedigaeth.—Cefncoedcymmer. — Claddwyd Watkin Wayne, Esq., o Aberdar, ar yr 22ain o Ebrill diweddaf, yn mynwent Hen Dy Cwrdd Cefn. Yr oedd y trancedig yn hanu o deulu ag oedd flynyddau yn ol yn arfer cyrchu i Hen Dy Cwrdd y Cefn i wrando yr Efengyl, ac y mae llawer o honynt wedi eu claddu yn y fynwent. Yr oedd yntau ei hunan o deimlad Undodaidd selog; o ba herwydd y bu iddo yn ei ewyllus wneyd fod llog mil o bunnau i gael ei roddi er cynnal i fyny yr achos yn y Capel uchod. Ar yr achlysur darllenodd y Parch. I. T. Williams (y gweinidog) yn yr addoldy ran o'r "Gwasanaeth Angladdol" yn llyfr Gweddi Undodaidd Saesnig, a'r Parch. N. R. Williams, Merthyr, ran arall o'r un llyfr, ar lan y bedd. Yr oedd ei gydymdeimlad a'i haelfrydigrwydd yn ddigon adnabyddus yn yr ardal yn mha un yr oedd yn byw, ac i bawb pellenig y mae ei haelionusrwydd tu ag achos crefydd, wedi iddo ef ei hunan ymadael a'r byd, yn brawf arosol o'r hyn oedd yn ei fywyd. "Y mae gwedi marw yn llefaru etto."

ENGLYNION I WILLIAM MORRIS, Y GOF, O'R TRAP GYNT.

Mawr ing am William Morrus,—a galar,
Ag wylo cwynfanus;
Câr a brawd, cywir heb rus,
O feddwl tangnefyddus.

Y lanerch ddistaw lonydd,—yw diwedd,
Pob dyn fel eu gilydd;
Yr uniawn gais arweinydd,
Hynaws a da, nos a dydd.

I'w enaid fath ddiddanwch,—a chysur,
Iachusol mewn tristwch,
I Grist garu llu y llwch,
A gwirio maddeugarwch.

I'r gweryd aeth a'r goron,—ar ei ben,
Er ei boenau mawrion;
Wna fawl â'r nefolion,
Yn wych fry,—ond iach ei fron.

Llandybie. Rhydderch.

Gwelliant Gwall.—Yn yr Ymofynydd Rhif 4 (ail gyf.), tudalen 98, y llinell olaf ond un o'r ail englyn, darllener "Dyna'i gyd er *dwyn* y gân," yn lle "Dyna'i gyd er *mwyn* y gân. Etto, yn Rhif Mai, tud. 122, y chwechfed o'r pen, yn lle "Aeth y Parch R. Jenkins, o Aberdâr," &c., darllener, "Aeth y Parch. R. Jenkin Jones, A. C., o Aberdâr," &c.

ARGRAFFWYD YN SWYDDFA'R "JOURNAL," CAERFYRDDIN.